CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 13EG HYDREF, 2021

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd J.E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

F. Akhtar	S.M. Allen	L.R. Bowen	K.V. Broom
C.A. Campbell	J.M. Charles	D.M. Cundy	C.A. Davies
W.R.A. Davies	T.A.J. Davies	G. Davies	H.L. Davies
I.W. Davies	J.A. Davies	K. Davies	S.L. Davies
E. Dole	J.S. Edmunds	D.C. Evans	H.A.L. Evans
L.D. Evans	R.E. Evans	W.T. Evans	S.J.G. Gilasbey
C.J. Harris	P. Hughes-Griffiths	T.M. Higgins	J.K. Howell
P.M. Hughes	J.D. James	R. James	D.M. Jenkins
J.P. Jenkins	G.H. John	C. Jones	B.W. Jones
D. Jones	G.R. Jones	A. Lenny	M.J.A. Lewis
K. Lloyd	K. Madge	E. Morgan	A.G. Morgan
D. Nicholas	B.D.J. Phillips	J.S. Phillips	D. Price
J.G. Prosser	H.B. Shepardson	A.D.T. Speake	L.M. Stephens
B. Thomas	D. Thomas	E.G. Thomas	G.B. Thomas
G. Thomas	J. Tremlett	A.Vaughan Owen	D.T. Williams
D.E. Williams			

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-

W. Walters, Prif Weithredwr
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
N. Daniel, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cynllunio
G. Ayers, Rheolwr Polisi Corfforaethol a Phartneriaeth
G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd [Cymryd Nodiadau]
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digido

Rhith-Gyfarfod : 10.00 yb - 11.15 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Edwards, A. Fox, A. James, T.J. Jones, A.S.J. McPherson S. Najmi, B.A.L. Roberts ac E. Schiavone.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau yn y cyfarfod.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

- Estynnodd y Cadeirydd ei gydymdeimlad diffuant ar ran yr Aelodau Etholedig a'r Uwch-swyddogion i'r Cynghorydd Louvain Roberts a'i theulu yn dilyn marwolaeth ei gŵr, Mel yn gynharach y mis hwn;

- Mynegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Mr Eric a Mrs Betty Jones, Twyn, Y Garnant, a oedd wedi dathlu 70 mlynedd o briodas ddiwedd mis Medi;

- Estynnodd y Cadeirydd ei ddymuniadau gorau i Mrs Irene Williams o Langynnwr a fyddai'n dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar 30 Hydref 2021.

- Estynnodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i Jonney Clayton, un o weithwyr y Cyngor, ar ennill Grand Prix Dartiau'r Byd 2021;

- Dywedodd yr Is-gadeirydd, Y Cynghorydd Ken Lloyd ei fod wedi mynychu Noson Wobrwyo a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Sgowtiaid Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar ar ran y Cadeirydd.

- Dywedodd y Cadeirydd ei fod ef a'i gydymaith, Mrs Joyce Williams ar 9 Medi wedi cael y pleser o gwrdd â Nerys Davies a oedd wedi beicio o Tignes yn Ffrainc i Gapel Bryn Iwan, Sir Gaerfyrddin sef pellter o dros 1,000 o filltiroedd er mwyn codi arian ar gyfer Calon Cymru.

- Dywedwyd wrth y Cyngor fod y Cadeirydd a'i gydymaith wedi mynychu Gwasanaeth Dinesig Maer newydd Cyngor Tref Caerfyrddin, sef y Cynghorydd Gareth John.

- Dywedodd y Cadeirydd wrth y Cyngor fod tudalen Facebook newydd wedi'i lansio i'w helpu i rannu newyddion a diweddariadau am ei weithgareddau fel Cadeirydd Cyngor Sir Caerfyrddin a hefyd i rannu gwybodaeth am ei elusen ddewisol sef Ambiwlans Awyr Cymru. Gallai unrhyw un a oedd am ddilyn ei weithgareddau chwilio am ‘Cadeirydd Cyngor Sir Gâr | Carmarthenshire County Council Chair’.

- Lansiodd y Cynghorydd Mair Stephens apêl teganau flynyddol y Cyngor a oedd yn darparu anrhegion i deuluoedd mewn angen. Roedd yr Awdurdod wedi darparu 7,500 o anrhegion i 1,256 o blant y Nadolig diwethaf a oedd yn gyflawniad rhyfeddol a byddai rhagor o fanylion am apêl eleni ar gael ar wefan y Cyngor o ddydd Llun, 18 Hydref 2021.

- Atgoffodd y Cynghorydd Ann Davies fod mis Hydref yn Fis Hanes Pobl Dduon a oedd yn rhoi cyfle i bawb rannu, dathlu a deall effaith treftadaeth a diwylliant pobl dduon. Yn ogystal, roedd Wythnos Ymwybyddiaeth

Troseddau Casineb yn cael ei chynnal rhwng 9 a 16 Hydref ac roedd y Cyngor yn gweithio gyda chymunedau a phartneriaid allweddol i'w gwneud yn glir nad oes croeso i droseddau casineb yn Sir Gaerfyrddin.

- Rhoddodd yr Arweinydd, gyda chaniatâd y Cadeirydd, y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa o ran Covid yn Sir Gaerfyrddin. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am ffigurau Covid yn y Sir a dywedodd, er bod y ffigurau'n parhau'n uchel, fod arwyddion o achosion cadarnhaol yn arafu. Nododd er bod pwysau cynyddol yn y system gofal cymdeithasol, dywedodd fod modd rheoli'r ffigurau yn y Gwasanaeth Iechyd ar hyn o bryd. Mynegodd yr Arweinydd ei ddiolch yn ddiffuant i staff gofal cymdeithasol a'r rhai a oedd yn parhau i weithio ar y rheng flaen am eu gwaith caled a'u hymroddiad parhaus. Dywedodd fod Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi darparu adroddiad i aelodau'r Cabinet ar effaith pwysau cenedlaethol ar wasanaethau gofal cymdeithasol yn Sir Gaerfyrddin; yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol yng Nghymru; effaith hyn ar drigolion Sir Gaerfyrddin a rhai o'r camau a gymerwyd i liniaru hyn. Gofynnodd i arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol yr Awdurdod ymuno ag ef ac ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynghylch gwneud newid radical yn y ffordd y rheolwyd gofal cymdeithasol ac ateb cenedlaethol o ran tâl ac amodau.

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR Y 15FED MEDI, 2021

PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 15 Medi 2021 yn gofnod cywir.

5. PENODI AELODAU CYFETHOLEDIG NEWYDD O'R PWYLLGOR SAFONAU

Ystyriodd y Cyngor adroddiad yn argymell penodi Mrs Carys Davies a Mr Frank Phillips yn aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau a hynny o 5 Rhagfyr 2021 ymlaen. Nodwyd bod cyfnodau swydd 2 aelod cyfetholedig presennol y Pwyllgor i fod i ddod i ben ym mis Rhagfyr 2021. Roedd Mrs Davies yn gyn-weinyddwr prifysgol tra bod Mr Phillips yn gyn-fargyfreithiwr ac roedd y panel recriwtio o'r farn bod gan y ddau ohonynt y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad angenrheidiol i gyflawni'r rôl hon.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL fod Mrs Carys Davies a Mr Frank Phillips yn cael eu penodi yn aelodau cyfetholedig o'r Pwyllgor Safonau am dymor o 6 blynedd yn y swydd a hynny o 5 Rhagfyr 2021 ymlaen.

6. PENODI SWYDD CYFARWYDDWR YR AMGYLCHEDD (DROS DRO)

Ystyriodd y Cyngor adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo'r proffil swydd a'r fanyleb person ar gyfer swydd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd [Dros Dro]. Gydag ymadawiad Cyfarwyddwr presennol yr Amgylchedd ar 31 Rhagfyr 2021, roedd y Prif Weithredwr, mewn trafodaeth â Chadeirydd y Pwyllgor Penodi l 'A', wedi nodi ei bod yn well ganddi recriwtio'n fewnol i rôl Cyfarwyddwr yr Amgylchedd (dros dro) er mwyn caniatáu digon o amser iddi adolygu cyfrifoldebau a strwythurau ehangach y portffolio.

Dywedwyd wrth y Cyngor y byddai'r amserlen ddrafft ar gyfer y penodiad dros dro, fel y nodir yn yr adroddiad, yn cael ei diwygio ac roedd opsiynau o ran dyddiad arall yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

PENDERFYNWYD y dylid cymeradwyo'r proffil swydd a'r fanyleb person ar gyfer swydd Cyfarwyddwr yr Amgylchedd [Dros Dro].

7. YSTYRIED ARGYMHELLION Y CABINET O RAN Y MATERION CANLYNOL:-

7.1. ADRODDIAD BLYNYDDOL YNGYLCH RHEOLI'R TRYSORLYS A'R DANGOSYDD DARBODAETH 2020-2021

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 (gweler Cofnod 12), wedi ystyried Adroddiad Blynyddol 2020/2021 ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth, a oedd wedi'i lunio er mwyn cydymffurfio â Chôd Ymarfer CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys yn y Sector Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:

“bod Adroddiad Blynyddol 2020/21 ynghylch Dangosyddion Darbodaeth a Rheoli'r Trysorlys yn cael ei fabwysiadu.”

7.2. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR SIR CAERFYRDDIN AR GYFER 2020/21.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor bod y Cabinet, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Medi 2021 (gweler cofnod 6), wedi ystyried adroddiad ar Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2020/21 a luniwyd yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Cabinet:

"bod adroddiad blynyddol y cyngor ar gyfer 2020/21 yn cael ei gymeradwyo."

8. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR

8.1. 13EG MEDI 2021

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Medi, 2021.

8.2. 27AIN MEDI 2021

PENDERFYNWYD derbyn adroddiad cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 27 Medi, 2021.

9. YSTYRIED Y RHYBUDDION O GYNNIG CANLYNOL:-

9.1. RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD JOHN JAMES

Bu'r Cyngor yn ystyried y Rhybudd o Gynnig canlynol a gyflwynwyd gan y Cynghorydd John James:-

“Mae'r Cyngor hwn yn mabwysiadu'r polisi fod pob datblygiad newydd, gan gynnwys enwau tai a strydoedd, yn cael eu darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'r polisi hwn a fabwysiadwyd yn cyd-fynd ag Amcan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gael "Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu" a bydd yn cyflwyno'r Gymraeg a'i defnydd i ragor o drigolion Sir Gaerfyrddin.”

Eiliwyd y cynnig.

Rhoddwyd cyfle i gynigydd ac eilydd y Cynnig siarad o blaid y Cynnig a bu iddynt amlinellu'r rhesymau dros ei gyflwyno, fel y'u nodwyd yn y Cynnig.

Gwnaed nifer o ddatganiadau yn mynegi cefnogaeth i'r Cynnig.

Nodwyd bod eisoes gan yr Awdurdod fframwaith a oedd yn hyrwyddo'r defnydd o enwau Cymraeg ar gyfer datblygiadau newydd, ond yn gyfreithiol ni ellid gorfodi hyn. Awgrymwyd, pe bai'r Cyngor yn cefnogi'r Rhybudd o Gynnig, yna bod y Cynghorydd James ochr yn ochr â'r Aelod Cabinet dros yr Iaith Gymraeg yn ysgrifennu at y Gweinidog dros Addysg a'r Iaith Gymraeg yn gofyn i Lywodraeth Cymru ddeddfu a chaniatáu i'r Awdurdod orfodi'r defnydd o enwau Cymraeg ar dai a strydoedd. Cadarnhaodd yr un a roddodd y cynnig y byddai'n hapus i weithio gyda'r Aelod Cabinet ar y mater hwn.

PENDERFYNWYD bod y Rhybudd o Gynnig yn cael ei gefnogi.

10. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

11. CWESTIYNAU GAN AELODAU (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan aelodau.

12. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar agenda 12.1 – 12.6 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

12.1. PWYLLGOR CYNLLUNIO -16EG MEDI, 2021

12.2. PWYLLGOR SAFONAU - 20FED MEDI 2021

12.3. PWYLLGOR APELAU - 21AIN MEDI 2021;

12.4. PWYLLGOR TRWYDDEDU - 23AIN MEDI, 2021

12.5. PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - 24AIN MEDI, 2021

12.6. PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU AC ADFYWIO - 30AIN MEDI, 2021

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council